

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

325 - Beirniadaeth Barddoniaeth Blwyddyn 7

Beirniad: Marc Lloyd Jones

Diolch i'r 54 ymgeisydd am eu cerddi diddorol ac amrywiol iawn. Roedd nifer o feirdd wedi sôn am ddeffro o hunllef, neu'r byd yn deffro i'r gwanwyn wedi'r gaeaf. Yn y cerddi mwyaf diddorol, roedd y beirdd wedi trafod syniadau gwahanol, megis yr alwad i'r byd ddeffro i newid hinsawdd, deffro i fyd heb gyfyngiadau Covid, neu'r angen i gymdeithasau ddeffro a gwrthwynebu gweithredoedd hiliol.

Daeth tair cerdd i'r brig ac yn y trydydd safle mae gwaith Madfall Ddŵr. Disgrifio byd natur ar fore braf o wanwyn mae Madfall Ddŵr. Yn hanner cyntaf y gerdd, mae'r canu'n delynegol, sy'n gweddu i'r dim wrth ddisgrifio harddwch byd natur. Mae hyn yn cyferbynnu'n effeithiol i'r newid mewn mydr ac awyrgylch yn ail hanner y gerdd wrth ddisgrifio'r bardd ei hun yn deffro yn ddiog ac yn flêr!

Yn ail mae Guto Davies am ei gerdd gwta, ond ysmala iawn. Mae'n debyg bod pob ymgais arall wedi ceisio ymdrin â rhyw foeswers neu ddweud rhywbeth dwys a difrifol. Nid Guto! Cefais fy ngoglais yn fawr gan y dweud syml amdano'n deffro'n hwyr unwaith eto, a'r darlun clir sy'n cael ei greu am gymeriad Guto mewn wyth llinell.

Rwy'n dyfarnu'r wobwr gyntaf i Elen Rees am ei cherdd wladgarol a'i neges glir, i ni gyd ddeffro i geisio achub yr iaith Gymraeg. Mae pob cwpled a'i neges ei hun a chyfeiriadau at ganeuon gwladgarol yn effeithiol iawn. Mae'r cwpled olaf yn cloi'r gerdd yn gampus wrth ddefnyddio geiriau Dewi Sant a'r anthem genedlaethol i grisialu'r neges. Llongyfarchiadau mawr i Elen!

1af – Elen Rees

2il – Guto Davies

3ydd – Indeg Ray